# Nant Gwernol

Ar y llwyfandir uwchben y ceunant gellir gweld olion Chwarel Bryn Eglwys lle bu cenedlaethau o ddynion a bechgyn yn gweithio'r gwythiennau llechi cyfoethog o dan y ddaear yn ystod y 19eg ganrif a'r 20fed ganrif. Byddai'r mwyafrif ohonynt yn cerdded bob dydd o bentref Abergynolwyn, ond byddai rhai yn teithio ar y trên ac yn aros ym marics y chwarel yn ystod yr wythnos.

Byddai'r chwarelwyr yn gweithio mewn timau o bedwar. Byddai dau greigiwr yn drilio a chwythu o dan y ddaear tra byddai'r ddau a oedd yn gweithio uwchben y ddaear yn dod â'r llechfaen allan ac yn defnyddio cŷn a lletem i'w hollti'n ddarnau digon bach i'w cludo ymaith. Byddai'r slabiau yn cael eu hollti'n llechi yn y felin, ac yn cael eu llwytho a'u cludo i lawr y dyffryn ar y dramffordd. Yna, caent eu symud i reilffordd Tal-y-llyn a'u cludo i'r lanfa yn Nhywyn.

## Llwybr y Chwarelwr

4 m
6.4 km

**Cychwyn:** Gorsaf Nant Gwernol

**Pellter:** 4 milltir / 6.4km; caniatewch 2.5 i 3 awr ar gyfer y daith.

**Gradd:** Egnïol, gyda llawer o waith dringo a disgyn ar hyd llethrau serth (250m/800tr o waith dringo)

**Uchafbwyntiau:** Golygfeydd eang, rhaeadrau ac olion y chwarel

**Llwybr:** Ewch dros y bompren a dilynwch y llwybr glan afon ar y dde. Trowch i'r chwith cyn y bompren nesaf, gan igam-ogamu i fyny'r bryn nes y dowch at giât. Yna, trowch i'r dde ar hyd y llwybr ac ewch yn eich blaen lle mae'r llwybr yn gogwyddo i'r chwith. Ewch heibio'r gwastraff chwarel a'r hen waliau. Trowch i'r chwith ar hyd llwybr cul heibio olion y chwarel a dringwch i fyny'r bryn. Dilynwch y llwybr wrth iddo ogwyddo i'r dde a disgyn i'r prif lwybr. Trowch i'r chwith ar hyd y llwybr, a lle mae'n troi'n sydyn i'r chwith, ewch ymlaen i lawr y bryn at y bompren.

### Chwiliwch am

Ar hyd y llwybrau mae yna baneli a safleoedd gwrando weindio i fyny sy'n adrodd stori Chwarelwyr Bryneglwys a'u teuluoedd.



### Llwybr byr yn ôl i'r orsaf

Trowch i'r dde a dilynwch y llwybr i lawr i'r gyffordd. Trowch i'r chwith a dilynwch yr hen dramffordd uwchben yr afon yn ôl i Nant Gwernol.

### Llwybr hir yn ôl i'r orsaf

Trowch i'r chwith i fyny'r allt wrth ymyl y nant ac fe ddowch at lôn goedwig. Ewch i'r dde ar hyd y lôn a daliwch i ddringo nes i chi gyrraedd yr wylfan. Trowch i'r dde ac ewch i lawr at y man lle mae'r llwybrau'n cwrdd. Trowch i'r dde a dilynwch y llwybr yn ôl i orsaf Nant Gwernol (neu trowch i'r chwith os ydych am fynd i orsaf Abergynolwyn).

## Cascade Trail

1 m
1.6 km

**Start:** Nant Gwernol Station

**Distance:** 1 mile / 1.6km allow 1 hr

**Grade:** Moderate with long climbs and steep descents (climb 30m/100ft)

**Highlights:** The cascading river, steam trains, the Allt Wyllt incline.

**Route:** Cross the bridge and follow the riverside path upstream. Cross a wooden bridge and turn right along the old tramway to finally descend via part of the old Allt Wylt incline back to Nant Gwernol station.

### Look out for

Short steep slopes may be inclines along which the roped-up slate trucks were moved up and down. Look for the remains of the drumhouses for the winding gear at the top.




## Llwybr y Rhaeadr

1 m
1.6 km

**Cychwyn:** Gorsaf Nant Gwernol

**Pellter:** 1 filltir / 1.6km; caniatewch 1 awr ar gyfer y daith

**Gradd:** Cymedrol gyda llethr serth i'w ddringo (30m/100tr o waith dringo)

**Uchafbwyntiau:** Yr afon raeadraidd, trenau stêm, inclein Allt Wyllt.

**Llwybr:** Ewch dros y bont a dilynwch y llwybr i fyny'r afon. Croeswch y bompren a throwch i'r dde ar hyd yr hen dramffordd. Ewch i lawr ar hyd rhan o hen inclein Allt Wyllt nes cyrraedd Gorsaf Nant Gwernol.

### Chwiliwch am

Mae'n bosibl mai hen incleiniau, lle byddai'r wagenni llechi yn cael eu tynnu i fyny ac i lawr, yw rhai o'r llethrau byr a serth. Chwiliwch am olion y cytiau weindio a'r cyfarpar dirwyn ar ben y llethr.



Jay
Sgrech y Coed

On the plateau above the river gorge lie the remains of Bryn Eglwys quarry where generations of men and boys quarried the rich veins of slate below ground, in the 19th and 20th centuries. Most walked daily from Abergynolwyn village but some travelled by train and stayed in barracks at the quarry during the week.

The quarrymen worked in teams of four. Two rockmen drilled and blasted below ground with two men working above ground bringing the rock out and splitting it into moveable sizes with chisels and wedges. The slabs were then split into slates at the mill, loaded onto trucks and taken down the valley via the tramway. Here they were transferred onto the Talyllyn railway and taken to the wharf at Tywyn.

## Quarryman's Trail

4 m
6.4 km

**Start:** Nant Gwernol Station

**Distance:** 4miles/ 6.4km allow 2.5-3 hrs

**Grade:** Strenuous with long climbs and steep descents (climb250m / 800ft)

**Highlights:** Wide views, waterfalls and quarry remains

**Route:** Cross the footbridge and follow the riverside path right. Before the next footbridge bear left, slowly zig-zagging up the hillside to a gate. Turn right along the track, continuing ahead where the track bears left. Continue past quarry waste and old walls. Turn left up a narrow path past the quarry remains and climb uphill. Follow the path as it bears right and descends to the main track. Turn left along the track and, where it bends sharply left, continue ahead on the path down the hillside to the footbridge.

### Look out for

Along the trails are panels and wind-up listening posts telling the story of the Bryneglwys Quarrymen and their families.

### Short route back to station

Turn right and follow the path down to the junction. Turn left and follow the old tramway above the river back to Nant Gwernol.

### Long route back to station

Turn left uphill beside the stream to reach a forest track. Turn right along the track and continue climbing until you reach the viewpoint. Turn right down the path and descend to a path junction. Turn right and follow the path back to Nant Gwernol station (or turn left for Abergynolwyn station).



